**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Tachwedd 11eg, 2024 am 7 y.h. yng Nghanolfan Deunant.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Jaci Jones (yn cadeirio),Gwenllian Haf, Nesta Roberts, Tim Rossa, Dafydd Williams, Wenda Williams, Gareth Williams (Cyngor Gwynedd). Y clerc Phil Hughes.

**Roedd Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod:** Fe gyflwynodd Alys arolwg o'r posibiliadau o gael grantiau ar gyfer adnewyddiad pellach Eglwys Newydd. Eglurodd fod ceisio am grantiau yn anodd nes bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymunedol.

Er mwyn symud ymlaen mae angen gorffen y tu mewn i'r Eglwys. Awgrymodd Alys y byddai'n syniad da cysylltu gydag Adam Hitching i weld a oes modd cael cymorth ariannol i orffen y tu mewn.

Awgrymodd hefyd i ni ddiweddaru'r gymuned a chreu holiadur i gasglu syniadau, ac roedd Alys yn fodlon rhoi help llaw i ni efo hyn.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Robert Williams.

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:** Bydd noson carolau yng Nghanolfan Deunant ar nos Sul Rhagfyr 8fed am 7y.h. er budd Eglwys Newydd.

Diolchwyd i'r cynghorydd Wenda Williams am fynychu gwasanaeth cofio Aberdaron ac am gyflwyno plethdorch ar ran y Cyngor.

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Hydref 14eg, 2024:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion:**

i. **Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
   **Tyllau yn Lôn Bryndol, Rhiw**
   Cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau bod y gwaith yma eisoes wedi'i nodi, a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael.

   **Agor ffos yn Geufron, Aberdaron.**
   Cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau bod gwaith ffosio wedi'i ychwanegu i'r rhestr, a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael.

   **Twll yn y ffordd ger Nant Eiddon, Rhydlios**

Cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau bod y gwaith yma wedi'i basio i'r uned gywir, a chaiff sylw pan mae adnoddau ar gael.

ii. **Materion yr Eglwys Newydd** – Mae archwiliad wedi ei gynnal o'r gwaith trwsio sydd wedi ei wneud hyd yma, ond fe fydd angen tystiolaeth bellach gan Darren Gallagher ar ran yr adeiladwyr i allu cwblhau'r adroddiad. Pan fydd hwnnw wedi ei orffen rydym yn disgwyl i'r cwmni yswiriant dalu cyfran dda o'r bil.
iii. **Y Fynwent** – Bydd angen archwiliad ar y fynwent. Mae'r cynghorwyr Robert Williams a Wil Evans am edrych ar y cerrig beddi.
iv. **Y Cae Chwarae** – Derbyniwyd pris am ffrâm newydd i'r siglen - £650+TAW ac £880+TAW i'w osod. Cytunwyd ei fod yn bris rhesymol a bod y Cyngor yn fodlon i'r gwaith fynd yn ei flaen.

**5) Llinellau melyn wrth dafarn Y Ship –** Cytunodd 4 cynghorydd i drafod y mater yma eto er ei fod wedi cael ei drafod yn ystod y 6 mis diwethaf.

Derbyniwyd e-bost drwy'r wefan gan Alun Harrison o dafarn Y Ship yn gofyn a fyddai'r Cyngor yn cefnogi ei gais am linellau melyn tu allan i'r adeilad. Er bod y mater wedi ei drafod yn barod o fewn y 6 mis diwethaf, cafwyd y nifer angenrheidiol o gynghorwyr i gytuno i'w drafod eto. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd beth fyddai oblygiadau roi llinellau melyn trwy'r pentref i gyd.

**6) Gohebiaethau:**

- **Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Arferol Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor am 7.00y.h Dydd Mercher 23ain Hydref ar ZOOM** – Ni fynychodd unrhyw aelod o'r cyngor.
- **Model Reoliadau Ariannol 2024 –** Er gwybodaeth wedi'i rannu.
- **Ymgysylltu â'r Gymuned mewn Cynllunio - Gwersi o bob rhan o Gymru - Dydd Iau Tachwedd 14eg 2024 10yb-1.30yp.** Linc wedi ei rannu a chroeso i unrhyw un fynychu.
- **Rhaglen waith Cyngor Gwynedd am fis Tachwedd - Cwt Chwarel, Aberdaron, Draeniad –** Er gwybodaeth.
- **Apêl am arian gan elusen Ambiwlans Awyr Cymru** - Wedi ei roi ar un ochr nes mis Mawrth.
- **Cyllid o £1.5 miliwn ar gyfer Hybiau Diogel a Chynnes ledled Cymru**- Dim modd i'r cyngor allu roi cais am arian.
- **Sesiwn Galw Heibio BIPBC – Cyngor Tref Pwllheli -** croeso i unrhyw un fynychu.
- **Rhybudd - Cau'r Ffordd Dosbarth III ym Mhencaerau ger Tŷ Capel Pencaerau -** Er gwybodaeth.

- **Cyfarfod cynghorau cymuned a thref Pen Llŷn i drafod cydweithio nos Fercher y 20fed** – Mae'r cynghorwyr Dewi Evans, Wil Evans, Emlyn Jones, Jaci Jones a Nesta Roberts yn gobeithio mynychu.

**7) Cynllunio**

**C24/0864/30/LL - Tŷ Mawr Bodferin, Rhydlios, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8LP** - Cais i godi to dros storfa slyri bresennol. - **Dim gwrthwynebiad na sylwadau.**

**C24/0840/30/LL - Tir ger Horeb, Lôn Uwchmynydd, Aberdaron, Pwllheli, LL53 8BY** - Cais llawn i waredu carafán presennol a gosod adeilad newydd yn ei le; dymchwel modurdy presennol a chodi adeilad storio atodol; dymchwel ac ail godi wal garreg i flaen y safle; creu ardal decin a mwynderol allanol; gosod system trin carthffosiaeth; llecyn parcio cysylltiol; giatiau a phileri; a thirlunio meddal. -**Sylwadau'r Cyngor - pryderon o or-ddatblygu ar ddarn bach o dir.**

**C24/0855/30/LL - Tyn Y Mynydd Isaf, Rhiw, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8AE** – Cais i newid defnydd adeilad allanol i gaffi bychan a siop bwyd môr. **- Dim gwrthwynebiad na sylwadau.**

**C24/0866/30/LL - Tyn Y Parc, Rhiw, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8AA** - Codi sied tractor a storfa newydd. - **Dim gwrthwynebiad na sylwadau.**

**C24/0186/30/DT - The Wilds, Lôn Uwchmynydd, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8BS-** Cais ôl weithredol i gadw mynedfa gerbydol – **Sylwadau'r Cyngor – nid yw'n credu ei fod yn le addas i gael mynedfa gerbydol.**

**8) Ariannol**

*Derbyniadau*

Dim derbyniadau

*Taliadau*

| | |
|---|---|
| Ffioedd banc HSBC | £5.40 |
| Three (CCTV) | £13.10 |
| Phil Hughes (Cyflog) | £260 |
| HMRC (PAYE) | £65 |
| WJ Jones (Torri gwair cae chwarae) | £450 |

**9) Materion ffyrdd a llwybrau**

1) Mae’r ffordd o Efailnewydd i Rydyclafdy wedi’i farbio, a gofynnwyd pam nad yw’r ffordd o’r Rhiw i Aberdaron wedi cael yr un driniaeth. Gofynnwyd ble y dewiswyd torri cloddiau yn yr ardal eleni.

2) Efail Rhos yn Rhoshirwaun cyn Brychdir – mae'r gwteri yn is na’r lôn ac mae ceir yn cael eu difrodi wrth yrru ar y ffordd hon.

3) Mae’r arwydd tractor wedi ei osod ar lôn Rhiw ond mae’n bell i ffwrdd o le mae’r mynediad cudd. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd a ydi hi’n bosib ychwanegu arwydd yn dweud ‘Perygl Mynediad Cudd’. Mae rhai cynghorwyr wedi gweld arwyddion o’r fath mewn ardaloedd eraill y Sir.

4) Mae gwrych yn dod i'r lôn rhwng Bodffordd a Lôn Anelog ac angen cael ei farbio.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, Rhagfyr 9fed, 2024**

**yn Neuadd y Rhos.**